

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cofnodi dalfeydd: Cwestiynau Cyffredin

## 1. Sut ydw i'n cofrestru?

Bydd angen gwahoddiad arnoch i gofrestru. Os nad ydych wedi cael gwahoddiad i gofrestru ar gyfer y system Cofnodi Dalfeydd, neu os oes angen cymorth arnoch i ddefnyddio'r system, cysylltwch â ni ar unwaith.

**E-bost MarineEvidenceandTech@llyw.cymru**
**Rhif ffôn: 03000 258923 neu 03000 258907**

Yn sgil natur ein gwaith mae'n bosibl y cewch eich trosglwyddo i'n gwasanaeth ateb. Gadewch neges a byddwn yn eich ffonio chi nôl cyn gynted â phosibl.

## 2. Ble ydw i'n cael mynediad i'r system?

Gallwch gofnodi eich dalfa ar y we neu gallwch lawrlwytho'r ap ar gyfer Android neu Apple. Mae'r ap yn caniatáu ichi gofnodi eich dalfa mewn ardal heb signal ffôn symudol.

Os nad ydych am ddefnyddio'r ap, mae dolen we y gallwch ei defnyddio i ychwanegu'r ddalfa ar liniadur neu gyfrifiadur cartref: **www.record-catch.service.gov.uk**

Gallwch gael cymorth i greu cofnod dalfa os nad oes gennych fynediad at y rhyngrwyd, y sgiliau priodol neu'r hyder i ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein (gweler cwestiwn 6).

## 3. Beth sydd angen imi gofnodi?

Mae'n rhaid ichi greu cofnod dalfa ar gyfer popeth yr ydych yn ei ddal ar bob taith bysgota. Byddwn yn gofyn ichi am wybodaeth am eich taith a phwysau byw eich dalfa.

Gallwch drosi pwysau'n bwysau byw drwy eu lluosi gan ddefnyddio ffactor trosi. **www.gov.uk/government/publications/calculate-your-fisheries-catch-limits/conversion-factors**

Os ydych yn dal rhywogaeth gwota neu rywogaeth sy'n destun cyfyngiadau dalfa mae'n rhaid cofnodi pob pysgodyn os nad oes eithriadau yn berthnasol.

Bydd gofyn ichi hefyd ddarparu gwybodaeth am yr ardal is-hirsgwar ystadegol lle y daliwyd y rhan fwyaf o'ch dalfa.

## 4. Rwy'n gapten ar gwch. Sut ydw i'n cael fy ngwahodd i ddefnyddio'r system cofnodi dalfa?

Bydd angen ichi gysylltu â pherchennog y cwch er mwyn cael gwahoddiad i ddefnyddio'r system.

## 5. Pa mor fuan ar ôl glanio y mae angen imi gofnodi fy nalfa?

Ar gyfer rhywogaethau â chwota a rhai heb gwota, rhaid ichi gofnodi'r ddalfa o fewn 24 awr o'i glanio.

## 6. A oes rhif ffôn y gallaf ei ffonio i gofnodi fy nalfa?

Os ydych yn bysgotwr nad yw'n hyderus i ddefnyddio'r Ap ond mae gennych aelod yn y teulu a fyddai'n gallu, gallwch ei ychwanegu fel capten i ddiweddaru'r Ap ar eich rhan.

Os nad oes gennych unrhyw un i ddefnyddio'r Ap ar eich rhan, mae'r ganolfan gyswllt ar gael.

Os byddwch yn ffonio'r ganolfan gyswllt i roi gwybod am gofnodion dalfeydd, bydd staff ar gael i ateb y ffôn rhwng 7am ac 8pm, ddydd Llun i ddydd Gwener. Ar adegau eraill, bydd y ganolfan gyswllt yn rhedeg gwasanaeth awtomatig a fydd yn eich galluogi i gyflwyno manylion eich dalfa.

Rhif y ganolfan gyswllt yw **0300 0203 788**

Ni fydd galwadau i rifau 03 yn costio mwy na chost ar y gyfradd genedlaethol i rifau 01 neu 02 ac mae'n rhaid iddynt gyfrif tuag at unrhyw funudau sy'n cael eu cynnwys yn yr un modd â rhifau 01 ac 02.

## 7. A oes unrhyw ganllawiau ar gael?

Oes, mae'r fideos byr hyn yn darparu arweiniad cam wrth gam i'r gwasanaeth:

Sut i gofrestru: **www.youtube.com/watch?v=-Ue1BxFKnik**

Cofnodi eich dalfa gyda signal neu hebddo:
**www.youtube.com/watch?v=PBZXAayw5Pk**

## 8. Pam nad oes trothwy de-minimis ar gyfer cofnodi dan 50kg o bysgod fel sydd ar gyfer cychod dros 10 metr?

Rydym yn gofyn ichi gofnodi pob pysgodyn er mwyn deall yn llawn y ddalfa a gymerir. Ar gyfer rhai stociau, mae terfyn yr hyn y cewch ei ddal yn fach iawn ac ni fyddai'n briodol gosod trothwy de-minimis. Ar gyfer cofnodion papur ac electronig cychod dros 10 metr, mae eithriad ar gofnodi pysgod o dan 50kg yn y llyfr log, ond darperir datganiadau glanio wedi hyn yn rhoi pwysau cywir ar gyfer pob pysgodyn. Mae Gweinidogion Cymru wedi dileu gofyniad y Gwasanaeth Cofnodi Dalfa i gychod o dan 10 metr ddarparu datganiad glanio.

## 9. A oes angen imi gyflwyno cofnod dalfa os ydw i'n cadw fy nalfa mewn potiau cadw?

Oes, os byddwch yn cwblhau taith bysgota ac yn rhoi eich dalfa yn uniongyrchol mewn pot cadw/storio, rhaid i chi gyflwyno cofnod dalfa ar gyfer yr

hyn yr ydych wedi'i roi yn y pot cadw/storio. Mae gan y gwasanaeth cofnodi dalfa adran ar gyfer cofnodi'r pysgod cregyn sy'n cael eu gosod mewn potiau storio.

Nid yw'n ofynnol i chi gwblhau cofnod dalfa ar wahân pan fyddwch yn gwagio'r pot storio.

Mae angen i ni wybod beth sydd wedi'i ddal a'i gadw mewn potiau cadw/storio ar gyfer pob taith. Bydd hynny'n ein helpu i ddeall faint o ymdrech oedd ei angen i ddal yr hyn rydych wedi'i ddal. Bydd hyn yn rhoi gwell tystiolaeth i ni i helpu i gynnal stociau pysgod iach.

Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar eich cofnod dalfa yr un fath ag yr oeddech yn arfer ei chofnodi ar ffurflen MSAR1 nad oes rhaid i chi ei llenwi mwyach.

**Enghraifft:**


*Mae Mr Jones yn dal tua 20kg o gimychiaid ddydd Llun ac yn eu rhoi yn ei bot cadw. Mae'n cofnodi ei ddalfa o tua 20kg nos Lun.*

*Mae Mr Jones yn dal tua 30kg o gimychiaid ddydd Mawrth. Mae'n casglu'r hyn ddaliodd ddydd Llun o'i bot cadw ac yn glanio dalfa'r ddau ddiwrnod. Nos Fawrth, mae'n cofnodi'r 30kg ddaliodd ddydd Mawrth. Mae ef eisoes wedi cofnodi dalfa dydd Llun felly does dim angen ei chofnodi eto.*

## 10. Sut ydw i'n darganfod rhif yr ardal ystadegol ICES?

Rhaid creu cofnod gwahanol ar gyfer pob ardal ICES y byddwch yn pysgota ynddi. Rhaid ichi ei chreu o fewn 24 awr ar ôl ichi lanio'r ddalfa. Byddwn yn gofyn ichi am yr ardal hirsgwar ystadegol, lle byddwch wedi dal y rhan fwyaf o'ch dalfa. I weld mapiau o ardaloedd ICES, ewch i **www.gov.uk/guidance/record-your-catch**

**Enghraifft o fapiau isod**



© Hawlfraint y Goron 2020 WG41621